RHONDDA CYNON TAF

**_CYNGOR BWRDEISTREF SIROL_**
# _RHONDDA CYNON TAF_
**COUNTY BOROUGH COUNCIL**

**GWŶS I GYFARFOD PWYLLGOR**


C Hanagan
Cyfarwyddwr Materion Cyfathrebu a Phennaeth Dros Dro'r Gwasanaethau Llywodraethol
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Y Pafiliynau Parc Hen Lofa'r Cambrian
Cwm Clydach, CF40 2XX

Dolen gyswllt: Julia Nicholls - Democratic Services


**DYMA WŶS I CHI** i gyfarfod rhithwir o **GYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF** sydd i'w gynnal ar **DYDD MERCHER, 10FED MAWRTH, 2021** am

**4.00 PM.**

**AGENDA** **Tudalennau**

**1. DATGANIADAU O FUDDIANT**

Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan Aelodau yn unol â'r Cod Ymddygiad.

1. Mae gofyn i Aelodau ddatgan rhif a phwnc yr agenda y mae eu buddiant yn ymwneud ag e a mynegi natur y buddiant personol hwnnw; a
2. Lle bo Aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant personol sy'n rhagfarnu, **rhaid** iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael.

**2. BARGEN DDINESIG PRIFDDINAS-RANBARTH CAERDYDD**

Derbyn cyflwyniad PowerPoint gan Gyfarwyddwr Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd a Chadeirydd y Bartneriaeth Twf Economaidd Rhanbarthol, sy'n rhoi manylion i Aelodau ynghylch Rhaglen Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd a'r gwaith sydd wedi'i gyflawni hyd yma.

**3. CYHOEDDIADAU**

**4. COFNODION**

Cadarnhau cofnodion o gyfarfodydd y Cyngor a gynhaliwyd ar y dyddiadau canlynol yn rhai cywir:

- 20 Ionawr 2021
- 10 Chwefror 2021

**5 - 38**

**5.** **ARCHWILIO CYMRU - CRYNODEB ARCHWILIAD BLYNYDDOL 2020: CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF**

**39 - 54**

**LLYWODRAETHU AGORED:**

**6.** **DATGANIADAU**

Yn unol â Rheol 2 o Weithdrefn Llywodraethu Agored Cyfarfodydd y Cyngor, derbyn datganiadau gan Arweinydd y Cyngor a/neu Gynghorwyr sy'n Aelodau Portffolio o'r Cabinet:

**7.** **CWESTIYNAU GAN YR AELODAU**

Derbyn cwestiynau'r Aelodau yn unol â Rheol 9.2 o Weithdrefn y Cyngor.

(**Nodwch:** Caniateir hyd at 20 munud ar gyfer cwestiynau.)

**55 - 62**

**RHAGLEN WAITH Y CYNGOR – ER GWYBODAETH I AELODAU**

**ADRODDIADAU'R SWYDDOGION**

**8.** **DIFFYG PRESENOLDEB GAN GYNGHORYDD AM CHWE MIS**

Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu.

**63 - 68**

**9.** **STRATEGAETH CYLLIDEB REFENIW 2021/22**

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyllid a Digidol

**69 - 124**

**10.** **PENDERFYNIAD TRETH Y CYNGOR 2021/22**

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyllid a Digidol

**125 - 136**

**11.** **RHAGLEN GYFALAF 2021/22 - 2023/24**

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyllid a Digidol

**137 - 156**

## 12. STRATEGAETH REOLI'R TRYSORLYS

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyllid a Digidol

**157 - 174**

## 13. ADRODDIAD STRATEGAETH GYFALAF 2021/22

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyllid a Digidol

**175 - 190**

## 14. DATGANIAD Y CYNGOR AR Y POLISI CYFLOGAU 2021/22

Derbyn Adroddiad ar y Cyd Cyfarwyddwr Materion Adnoddau Dynol a Chyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol.

**191 - 204**

## 15. RHYBUDDION O GYNIGION

Trafod y Rhybudd o Gynnig canlynol sydd wedi'i gyflyno yn enwau Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol L. M. Adams, S. Bradwick, D. R. Bevan, H Boggis, J. Bonetto, J Brencher, A Calvert, G. Caple, A. Crimmings, A. Davies-Jones, L De Vet, J. Edwards, J Elliott, S. Evans, M Fidler Jones, M. Forey, A. Fox, E. George, M. Griffiths, J. Harries, G. Holmes, G. Hopkins, G. Jones, R. Lewis, W Lewis, C. Leyshon, A. Morgan, S. Morgans, M. A. Norris, D. Owen Jones, S Pickering, S. Powell, S. Rees, A. Roberts, J. Rosser, G Stacey, M Tegg, G Thomas, W Treeby, R K Turner, M. Webber, D. Williams, T. Williams, C. J. Willis a R. Yeo.

Mae pandemig byd-eang COVID-19 wedi bod yn eithriadol o anodd i fusnesau, gyda llawer o bobl ledled y wlad, y DU a thu hwnt yn gorfod cau wrth i ni geisio rheoli lledaeniad y feirws a chadw pobl yn ddiogel. Yn naturiol, mae hyn wedi cael effaith niweidiol ar y rhai sy'n gweithio yn y sectorau yr effeithir arnynt, gyda miliynau ledled y DU yn cael eu rhoi ar gynllun ffyrlo, a llawer o rai eraill yn colli eu swyddi. Yng ngoleuni'r sefyllfa ddigynsail yma, nid nawr yw'r amser ar gyfer anghydfodau ynghylch tâl ac amodau gwaith.

Mae'r Cyngor yma'n nodi'r anghydfod parhaus rhwng British Gas (a'i riant-gwmni Centrica) a'i weithwyr gweithgar - sydd wedi cael eu bygwth â cholli swyddi os nad ydyn nhw'n derbyn cyflog is ac amodau gwaeth.
Oherwydd y streic a gefnogwyd gan fwyafrif helaeth y staff a'r peirianwyr, mae mwy na 100,000 o gwsmeriaid wedi'u gadael yn aros am wasanaeth, a bydd y nifer yma'n cynyddu dros yr wythnosau nesaf trwy gydol y gaeaf.

Mae'r anghydfod yma yn aflonyddwch diangen, gyda Centrica yn nodi elw sylweddol o £901 miliwn yn 2019 (cyn eitemau eithriedig a threth), tra bod proffidioldeb y busnes gwresogi cartrefi yn y DU wedi codi 27% yn ystod 6 mis cyntaf 2020, gyda chyfran sylweddol o'r boblogaeth yn gweithio gartref oherwydd y pandemig.

Mae'r Cyngor yma'n **nodi**:

- Y gwaith gwerthfawr y mae staff a pheirianwyr yn ei wneud i gadw cartrefi Prydain yn gynnes - gyda gweithwyr yn aml yn gorfod ymweld â chartrefi pobl yn ystod y pandemig i sicrhau bod gyda nhw fodd o wresogi'u cartref a'u bod nhw'n byw'n gyfforddus.

- Y gweithredoedd a'r bygythiadau anghyfiawn a wnaed gan Centrica i weithwyr British Gas - yn enwedig o ystyried sefyllfa ariannol ddiweddar y cwmni.

Mae'r Cyngor yma, felly, yn **penderfynu**:

- Gofyn i Arweinydd y Cyngor ysgrifennu at Centrica i amlinellu cefnogaeth y Cyngor yma i weithwyr British Gas lleol.

***

## 16. MATERION BRYS

Trafod unrhyw faterion sydd, yn ôl doethineb y Cadeirydd, yn faterion brys yng ngoleuni amgylchiadau arbennig.

**<u>Cyfarwyddwr Materion Cyfathrebu a Phennaeth Dros Dro'r Gwasanaethau Llywodraethol</u>**

**At: Pob Aelod o'r Cyngor**